Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Dyma'r pecyn gwybodaeth ar gyfer swydd:
**Rheolwr Prosiect (Sgiliau a Hyfforddiant)**

Mae rhagor o wybodaeth am Ffilm Cymru ar gael fan yma:
[www.ffilmcymruwales.com](http://www.ffilmcymruwales.com)

## Cynnwys

**Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chymorth Mynediad** .................. 2
- **Rhannu Swydd a Gweithio Hyblyg** .................. 2

**Y Rôl** .................. 3
**Sut i Wneud Cais** .................. 4
**Cyfrifoldebau Allweddol** .................. 5
**Meini prawf gofynnol ar gyfer y rôl** .................. 7
**Dymunol** .................. 8
**Ffilm Cymru Wales** .................. 9

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chymorth Mynediad

Credwn mewn sector sy'n gweithio i bawb ac rydym yn angerddol am ehangu mynediad i'r sector sgrin.

Yn achos ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl, yn niwroamrywiol, a phobl sydd wedi colli eu golwg, mae cymorth ar gael i gyflwyno cais.

Cysylltwch â ni i roi gwybod i ni sut y gallwn helpu. Er enghraifft, gallwn dalu costau dehonglydd BSL ar gyfer cyfarfod â ni cyn gwneud cais, cymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig, neu gytuno ar fformatau gwahanol ar gyfer gwneud cais. Cawn ein harwain gennych chi.

Cysylltwch â **siobhan@ffilmcymruwales.com** i drafod eich gofynion cyn gwneud cais.

## Rhannu Swydd a Gweithio Hyblyg

Rydym yn agored iawn i gynigion ynghylch rhannu swydd a gweithio hyblyg. Rhowch fanylion yr hyn rydych chi'n ei gynnig o ran rhannu swydd neu weithio hyblyg os yw'n berthnasol.

We stand in solidarity to say NO to racism and commit to a #ZeroRacismWales
DO YOU?
Sign our policy today.
www.zeroracismwales.co.uk

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

## Y Rôl

Rydym yn chwilio am reolwr prosiect rhagorol sydd â phrofiad o oruchwylio a chyflawni prosiectau cymhleth wedi'u hariannu gan y llywodraeth mewn tîm bach, ac i derfynau amser tynn.

| | |
|---|---|
| **Adran:** | Hyfforddiant a Sgiliau |
| **Swydd:** | Rheolwr Prosiect, Rhan-Amser 0.6 (3 diwrnod yr wythnos) Cyfnod Penodol tan 31/03/25 (gan ostwng i 1.5 diwrnod yr wythnos o 01/01/25 - 31/03/25) |
| **Yn adrodd i:** | Y Prif Weithredwr |
| **Lleoliad:** | Cymru. Gweithle'r Prosiect: Swyddfa Ffilm Cymru yng Nghaerdydd. Disgwylir cyflawni'r gwaith mewn ffordd gyfunol, o bell ac wyneb yn wyneb. |
| **Cyflog:** | £40,817.00 y flwyddyn (pro-rata) cyfnod penodol tan 31/03/25, ynghyd â phensiwn a gwyliau pro rata (28 diwrnod o wyliau ynghyd â gwyliau cyhoeddus y flwyddyn pro rata). |
| **Dyddiad cau:** | Dydd Llun 12 Chwefror 2024, hanner dydd. |
| **Cyfweliadau:** | w/c 19 Chwefror 2024. |

Mae tîm Sgiliau a Hyfforddiant Ffilm Cymru yn chwilio am reolwr prosiect i weithio gyda'i dîm bach i gefnogi'r gwaith o ddarparu, olrhain ac adrodd, yn effeithiol ac effeithlon, ar draws ein dau brosiect, drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, yng Nghasnewydd ac Abertawe. Bydd y rôl hon yn cynnwys gweithio gyda chyllidwyr, y gymuned, y sector cyhoeddus a phartneriaid ym myd y sgrin i gyflawni cynlluniau prosiectau, cyflawni'r prosiectau ac adrodd arnynt, o'r dechrau i'r diwedd. Bydd yn gweithio ochr yn ochr â Rheolwr Partneriaeth Sgiliau a

Powered by Levelling Up — Wedi'i yrru gan Ffyniant Bro

Hyfforddiant, Swyddog Gweithredol Sgiliau a Rheolwr Lleoliadau Diwydiant, wrth i'r tîm gyflawni ei raglenni hyfforddi i'r gymuned a'r diwydiant.

Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn elfen ganolog o agenda Ffyniant Bro llywodraeth y DU ac yn darparu £2.6 biliwn o gyllid ar draws y DU i'w fuddsoddi'n lleol erbyn mis Mawrth 2025. Mae'r swydd hon yn cael ei hariannu gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

## Sut i Wneud Cais

Credwn mewn sector sy'n gweithio i bawb ac rydym yn angerddol am ehangu mynediad i'r sector sgrin.

Oni bai ein bod wedi cytuno gyda chi ar fformat gwahanol i'r cais, anfonwch e-bost gyda CV a llythyr eglurhaol i **skills@ffilmcymruwales.com** yn amlinellu eich profiad a'ch sgiliau yn erbyn y rhai sydd wedi'u hamlinellu yn y cais hwn. Defnyddiwch y llinell pwnc: RHEOLWR PROSIECT SGILIAU A HYFFORDDIANT.

Cyflwynwch eich cais erbyn hanner dydd ar ddydd Llun 12 Chwefror 2024.

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

## Cyfrifoldebau Allweddol

- Gan weithio i'r Prif Weithredwr, mae'r rôl hon yn arwain ar reoli prosiect dwy raglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin sy’n cael eu cynnal gan Ffilm Cymru Wales yn 2024.
- Goruchwylio gwariant cyllideb ac incwm y prosiectau yn erbyn yr elfennau sydd i’w cyflawni.
- Gweithio'n agos gyda'r tîm Sgiliau a Hyfforddiant i gynorthwyo gwaith rheoli prosiect cyffredinol y rhaglenni sy’n cael eu hariannu.
- Bod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer cynghorau a cholegau lleol fel y prif gyllidwyr yng Nghasnewydd ac Abertawe a lledaenu gwybodaeth i'r tîm mewn modd amserol.
- Goruchwylio systemau a phrosesau rheoli prosiect ar draws ein prosiectau drwy’r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan adrodd i'r Prif Weithredwr.
- Goruchwylio gweithgarwch casglu data ac adrodd ar ganlyniadau ac allbynnau ar y ddau brosiect i sicrhau bod Ffilm Cymru Wales yn bodloni eu gofynion cytundebol.
- Gweithio i werthuso ac adrodd ar draws y prosiectau, yn ariannol ac yn erbyn targedau diffiniedig drwy gydol y gwaith cyflawni.
- Llunio adroddiadau ysgrifenedig rheolaidd gyda'r Tîm Sgiliau a Hyfforddiant sy'n cyflwyno tystiolaeth feintiol ac ansoddol o ddarpariaeth y rhaglenni.
- Goruchwylio'r gwaith o reoli ac olrhain targedau, a systemau sy'n ymwneud â rhaglenni gwaith y Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- Cysylltu â chymheiriaid cyllid yn Ffilm Cymru Wales a chyllidwyr allanol neu fel y cyfarwyddir fel arall, yn ymwneud â monitro ac adrodd ar y prosiectau.

Powered by Levelling Up
Wedi'i yrru gan Ffyniant Bro

- Rheoli contractau a diwydrwydd dyladwy sy'n ymwneud â rhwymedigaethau cytundebol ac ariannol ar draws ein prosiectau drwy’r Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- Gweithio gyda'r tîm cyllid i sicrhau adroddiadau cywir ac amserol mewn perthynas ag incwm a gwariant y prosiectau drwy’r Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- Casglu data meintiol ac ansoddol a all lywio datblygiad a dangos effaith.
- Asesu ac adrodd yn erbyn anghenion a rheolaeth adnoddau ar draws prosiectau a nodi bylchau a chyfleoedd.
- Mynychu cyfarfodydd prosiect sgiliau a hyfforddiant wythnosol a chyfathrebu â phartneriaid a'r tîm o ran elfennau i’w cyflawni a disgwyliadau'r prosiectau.
- Mynychu cyfarfodydd mewnol wythnosol i’r tîm cyfan yn Ffilm Cymru Wales.
- Olrhain gwariant prosiectau yn effeithiol ac yn effeithlon yn erbyn targedau.
- Tynnu sylw at wersi, risgiau a heriau mewn modd amserol mewn perthynas â chyflawni’r prosiectau ac adrodd i'r Prif Weithredwr a chyllidwyr.
- Rheoli i fyny ac ar draws timau’r prosiectau i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth ar gyfer terfynau amser adrodd.
- Hyrwyddo a hybu amrywiaeth a chynhwysiant yn gyson yn unol â'n Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

# Meini prawf gofynnol ar gyfer y rôl

- Gwybodaeth a phrofiad cadarn o gyflawni prosiectau a gweithio gyda thimau rheoli ar draws prosiectau prysur aml-bartner.
- Profiad o reoli rhaglenni cyllid y llywodraeth, Cronfa Adfywio Cymunedol y DU, y Gronfa Ffyniant Gyffredin neu Gronfa Gymdeithasol Ewrop, yn flaenorol neu brofiad tebyg.
- Dealltwriaeth o gontractau fel y maent yn ymwneud â phrosiectau sy’n cael eu hariannu.
- Profiad amlwg o reoli prosiect a chyllideb gyda thîm bach.
- Fel trefnydd gwych, byddwch yn gallu dangos tystiolaeth eich bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau a bod gennych y gallu i gyflawni prosiect hyd at ei gwblhau'n llwyddiannus.
- Datryswr problemau gyda phrofiad o ddatblygu, olrhain, rheoli a gwerthuso rhaglenni sy’n cael eu hariannu.
- Profiad o weithio a chyfathrebu â chroestoriad eang o bartneriaid prosiect ar amryw lefelau.
- Y gallu i ddefnyddio cyfres Microsoft Office, yn enwedig Excel.

## Dymunol

- Profiad a dealltwriaeth o sector ehangach sgrin a’r celfyddydau.
- Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu'r rhai sydd â diddordeb mewn ymuno â'r diwydiannau creadigol.
- Rhuglder yn y Gymraeg (yn ysgrifenedig ac ar lafar).
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl sefydliadau cymunedol a/neu'r trydydd sector a chyrff cyhoeddus.
- Cymhwyster rheoli prosiectau.
- Profiad ymarferol o'r broses gaffael fel y mae'n ymwneud â chyllid cyhoeddus.
- Cyfrannu at drosi cynlluniau prosiectau i gyflawni prosiectau.

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Ffilm Cymru Wales

Ffilm Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilmiau yng Nghymru ac rydym wedi ymrwymo i hybu sector ffyniannus y gallwn oll fod yn falch o ddweud ei bod yn perthyn i ni. Dyma sut y gwnawn hyn:

- Gweithio gyda phartneriaid i hybu safle byd ffilm yng Nghymru a thu hwnt.
- Creu amgylchedd lle gall ffyrdd o weithio sy'n fwy cynhwysol, arloesol a gwyrdd gael eu profi, eu hintegreiddio a'u rhannu.
- Hwyluso i bobl o bob oedran a gallu ddysgu'n greadigol.
- Datblygu gweithlu sgrin i'r dyfodol drwy amryw raglenni hyfforddiant.
- Buddsoddi mewn ffilmiau anarferol a rhai sy'n cymryd risgiau a'u gwneuthurwyr o gam cynnar.
- Cynnig profiadau sinematig cyffrous i gynulleidfaoedd ar hyd a lled Cymru.

Rydym yn rheoli arian y Loteri Genedlaethol ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru a'r British Film Institute, yn ogystal â chodi a rheoli rhagor o arian gan Lywodraethau'r DU a Chymru. Mae ein gwaith yn cyd-fynd yn agos â Rhaglen Llywodraeth Cymru, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, oherwydd cymysgedd creadigol, economaidd a diwylliannol ein sector.

Sefydlwyd Ffilm Cymru yn 2006 ac mae'n Gwmni Buddiannau Cymunedol. Yn 2018 lansiwyd ein Cynllun Strategol 2018 -2024, sydd ar gael i'w ddarllen fan yma.

NEWPORT CITY COUNCIL CYNGOR DINAS CASNEWYDD
POWERED BY LEVELLING UP
Cyngor Abertawe Swansea Council
Delivered by Darparwyd gan serco
RESTART SCHEME CYNLLUN AILDDECHRAU
WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO
SGILIAU ar gyfer Abertawe SKILLS for Swansea